| **Dydd Sul 28/11/21** | **9:45yb Cymun Bendigaid** | **5:00yh Carolau Adfent ar-lein** |
|---|---|---|
| Arwain | Mark | Siôn & Michael |
| Blodau | | |
| Cyfeilio | Aeron | |
| Darllen | Non | |
| Darlleniadau | *Actau 27: 27-44; Luc 1: 5-25* | *Darlleniadau Adfent* |
| Gweddïau | Menna | Emma |
| Lluniaeth | Jeff a Tony | |
| Pregethu | Mark | |

| **Dydd Sul 5/12/21** | **9:45yb Mawl y Bore** | **5:00yh Hwyrol Weddi ar-lein** |
|---|---|---|
| Arwain | Mark | Mark |
| Blodau | | |
| Cyfeilio | Aeron | |
| Darllen | Rolant | Menna |
| Darlleniadau | *Malachi 3: 1-4; Luke 1: 26-38* | *Eseia 40: 1-11; Luc 1: 1-25* |
| Gweddïau | Robert | Emma |
| Lluniaeth | Barbara & Robert | |
| Pregethu | Mark | Jamie |

| | | |
|---|---|---|
| 29/11/21 | 7:00yh | Cyfarfod Pwyllgor y AWL |
| 6/12/21 | 7:00yh | Gwasanaeth Carolau'r brifysgol a'r dref |
| 8/12/21 | 7:00yh | Cyfarfod Pwyllgor yr Eglwys (Zoom) |
| 19/12/21 | 9:45yb | Gwasanaeth Carolau i ddysgwyr a'u ffrindiau |
| 19/12/21 | 5:00yh | Gwasanaeth Carolau ar-lein |
| 25/12/21 | 9:30yb | Cymun y Nadolig |


***Gweinidog:***

Parch. Mark Ansell, Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL. 01970 617184 eglwysfair@gmail.com (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

***Gweinidogion eraill:***

**Parch. Cei Rees,** 01970 617184 cei@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)
**Parch. Liz Rees,** 01970 617184 liz@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)
**Parch. Becky Evans,** 01970 617184 becky@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)
**Parch. Robert Wilkinson,** 01970 617184 robert@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Iau)


# Eglwys y Santes Fair

**y Gair**
**y Groes**
**y Gymraeg**

*28ain o Dachwedd 2021*

**9:45yb Cymun Bendigaid**

**5:00yh Carolau Adfent** ar-lein

## CROESO

**Croeso i Eglwys y Santes Fair!**

Diolch am ddod heddiw. Gobeithio eich bod chi'n gallu aros i gael paned gyda ni ar ddiwedd y gwasanaeth.



Cynhelir Ysgol Sul i blant a phobl ifanc am 9:45yb.

Mae system dolen anwytho yn yr eglwys. Trowch eich teclyn clyw i'r gosodiad pwrpasol.



**Ein Nod**

Yn Eglwys y Santes Fair...
rydym yn **creu cymuned** sy'n **caru'n cymdeithas** er mwyn **cyflwyno Crist**.

***Gweddi Eglwys y Santes Fair***

Arglwydd Iesu,
addewaist adeiladu dy eglwys.
Felly, os gweli di fod yn dda, adeilada dy eglwys yn ein plith.
Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn yr ardal weinidogaeth hon. **Amen.**

www.eglwysfair.cymru

Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth

@eglwysfair

## *Newyddion Teulu'r Eglwys*

**Cristion**

Mae copïau o rifyn Tachwedd / Rhagfyr 2021 ar gael ar y ford yng nghefn yr Eglwys. Pris £1.50 yr un.

**Tear Fund**

Diolch i chi am eich cyfraniadau at Tear Fund yn ddiweddar. Rydym wedi anfon £1,000 at eu hapêl ar gyfer Afghanistan. Diolch am eich haelioni.

**Carolau Adfent**

Ymunwch â ni ar-lein ar gyfer ein gwasanaeth carolau Adfent heno am 5:00yh ar-lein. Manylion *Zoom* yr un peth â Hwyrol Weddi - gweler isod.

**Gwasanaethau ar-lein**

Mae gwasanaeth ar-lein am 5:00yh bob nos Sul drwy raglen Zoom. Bydd angen rhif y cyfarfod – sef 964 3320 1895 – a'r cyfrinair, sef 1588. Gallwch ymuno drwy ffôn hefyd: Ffoniwch - 0203 051 2874 ac wedyn rhowch rhif y cyfarfod, wedyn yr allwedd #, wedyn 1588 wedyn # eto.

**Diolchgarwch lanwo 'nghalon i**
I'r Hwn a ddug fy nghur,
Fe blymiodd ddyfnder du fy ngwarth
Ces fywyd newydd, gwir;
Do, chwalodd felltith 'mhechod cas
A'm gwisgo yn Ei wawl,
'Sgrifennodd ddeddf cyfiawnder pur
Yn rymus ar fy mron.

Diolchgarwch lanwo 'nghalon i
I'r Hwn sy'n dal fy llaw;
Mae'n boddi'm gwendid trist â'i nerth
Diflannu wna pob braw;
Ei addewid Ef sy'n ddigon im
Wrth gerdded ar fy nhaith.
Â'i freichiau dwyfol mae'n fy nal,
Corona fi â'i ras.

Diolchgarwch lanwo 'nghalon i
I'r Hwn deyrnasa fry;
Ei ddoethineb yw fy nefol hedd,
A'i gariad yw fy mryd.
Pob dydd sydd imi dan y rhod
Y Brenin, Ef a'u rhoes.
Am hynny, rhoddaf innau f'oll
I'w ddilyn drwy fy oes.

**Frenin nef, sanctaidd Un**
Mab y Tad, yn byw ynof fi;
Geidwad mwyn, gyfaill cu
Nerth tragwyddol, ynof am byth.
Rwy'n dod yn awr at d'orsedd Di.

*Dywysog nef, ni allaf i*
*Ond rhoi fy hun, ger d'orsedd Di;*
*F'euogrwydd dan fy ngwisg o'r nef*
*Rwy'n byw i ti, Dywysog nef*

Daer a nef, fola Di
Gariad mawr, yn ffyddlon i mi;
Prynu enaid, talu'r pris
Dwyn pechadur i gymod am byth.
Rwy'n dod yn awr i'th foli Di.

**Salm 25: 1-11**- Camberwell

**Arglwydd, rwy'n dyrchafu**
F'enaid atat ti.
Paid â chywilyddio
F'ymddiriedaeth i.
Nid i'r rhai sy â'u gobaith
Ynot ti, O Dad,
Y daw byth gywilydd,
Ond i rai llawn brad.

Rho i mi wybodaeth,
Arglwydd, am dy ffyrdd.
Rho i mi hyfforddiant
Yn dy lwybrau fyrdd.
Arwain fi, a dysg fi.
Ti bob amser yw
Yr Un a ddisgwyliaf
I'm gwaredu, O Dduw.

Cofia dy ffyddlondeb,
Sydd yn bod erioed.
Paid â chofio 'mhechod
Cyn im ddod i oed.
Da yw Duw ac uniawn.
Arwain wylaidd rai
A dysg bechaduriaid
Yn ei ffordd ddi-fai.

Cariad a gwirionedd
Yw ei lwybrau i gyd
I'r rhai sydd yn cadw'i
Gyfraith ef o hyd.
Er mwyn d'enw, Arglwydd,
Maddau di yn awr
Imi fy holl gamwedd,
Sydd yn gamwedd mawr.

## Actau 27: 27-44

[27]Daeth y bedwaredd nos ar ddeg, a ninnau'n dal i fynd gyda'r
lli ar draws Môr Adria. Tua chanol nos, dechreuodd y morwyr
dybio fod tir yn agosáu. [28]Wedi plymio, cawsant ddyfnder o
ugain gwryd, ac ymhen ychydig, plymio eilwaith a chael
pymtheg gwryd. [29]Gan fod arnynt ofn inni efallai gael ein
bwrw ar leoedd creigiog, taflasant bedair angor o'r starn, a
deisyf am iddi ddyddio. [30]Dechreuodd y morwyr geisio dianc
o'r llong, a gollwng y bad i'r dŵr, dan esgus mynd i osod
angorion o'r pen blaen. [31]Ond dywedodd Paul wrth y
canwriad a'r milwyr, "Os na fydd i'r rhain aros yn y llong, ni
allwch chwi gael eich achub." [32]Yna fe dorrodd y milwyr
raffau'r bad, a gadael iddo gwympo ymaith.

[33]Pan oedd hi ar ddyddio, dechreuodd Paul annog pawb i
gymryd bwyd, gan ddweud, "Heddiw yw'r pedwerydd dydd ar
ddeg i chwi fod yn disgwyl yn bryderus, a heb gymryd tamaid
o ddim i'w fwyta. [34]Felly yr wyf yn eich annog i gymryd bwyd,
oherwydd y mae eich gwaredigaeth yn dibynnu ar hynny; ni
chollir blewyn oddi ar ben yr un ohonoch." [35]Wedi iddo
ddweud hyn, cymerodd fara, a diolchodd i Dduw yng ngŵydd
pawb, a'i dorri a dechrau bwyta. [36]Cododd pawb eu calon, a
hwythau hefyd yn cymryd bwyd. [37]Rhwng pawb yr oedd dau
gant saith deg a chwech ohonom yn y llong. [38]Wedi iddynt
gael digon o fwyd, dechreusant ysgafnhau'r llong trwy daflu'r
ŷd allan i'r môr.

**Y Llongddrylliad**

[39]Pan ddaeth hi'n ddydd, nid oeddent yn adnabod y tir, ond
gwelsant gilfach ac iddi draeth, a phenderfynwyd gyrru'r llong
i'r lan yno, os oedd modd. [40]Torasant yr angorion i ffwrdd, a'u
gadael yn y môr. Yr un pryd, datodwyd cyplau'r llywiau, a
chodi'r hwyl flaen i'r awel, a chyfeirio tua'r traeth. [41]Ond
daliwyd hwy gan ddeufor-gyfarfod, a gyrasant y llong i dir.
Glynodd y pen blaen, a sefyll yn ddiysgog, ond dechreuodd y
starn ymddatod dan rym y tonnau. [42]Penderfynodd y milwyr
ladd y carcharorion, rhag i neb ohonynt nofio i ffwrdd a dianc.
[43]Ond gan fod y canwriad yn awyddus i achub Paul,
rhwystrodd hwy rhag cyflawni eu bwriad, a gorchmynnodd i'r
rhai a fedrai nofio neidio yn gyntaf oddi ar y llong, a chyrraedd
y tir, [44]ac yna'r lleill, rhai ar ystyllod ac eraill ar ddarnau o'r
llong. Ac felly y bu i bawb ddod yn ddiogel i dir.